Cardiff & Vale HealthCharity
ElusenIechyd Caerdydd a'r Fro

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale University Health Board

# Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro
# Adroddiad Blynyddol 2023-2024



# Contents


| | |
|---|---|
| 2 | Cynnwys |
| 3 | Cyflwyniad |
| 4 | Uchafbwyntiau |
| 5 | Eich cyfraniadau a'ch digwyddiadau codi arian |
| 9 | Ffyrdd o gyfrannu a chefnogi ein gwasanaethau |
| 11 | Sut rydym wedi gwario eich cyfraniadau |
| 12 | Gwobrau |
| 13 | Cynllun Loteri'r Staff |
| 15 | Y Ffordd Ymlaen |
| 16 | Strwythur, Llywodraethu a Rheoli |

# Cyflwyniad

Rydym yn falch o'ch croesawu i Adroddiad Blynyddol Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro 2023 - 2024. Wrth i ni fyfyrio ar y flwyddyn ddiwethaf, mae'n amlwg bod Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro wedi parhau'n gadarn yn ei hymrwymiad i gefnogi Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i ddarparu gwasanaethau gofal iechyd a lles i'n cymuned.

Mae'r adroddiad blynyddol hwn nid yn unig yn tynnu sylw at ein cyflawniadau, ond hefyd gwydnwch a gallu ein tîm, partneriaid a chefnogwyr i addasu yn wyneb heriau digynsail. Mae'r argyfwng costau byw wedi taflu cysgod hir dros sawl agwedd ar fywyd bob dydd, gan effeithio ar y bobl fwyaf agored i niwed yn ein plith. Fel pob elusen, mae'r Elusen Iechyd yn wynebu heriau economaidd. Mae costau cynyddol ar ôl y pandemig wedi rhoi straen ar gyllidebau aelwydydd ac wedi cael effaith andwyol ar gyfraniadau a gweithgarwch incwm i elusennau ledled y DU. O'r herwydd, mae angen i'r Elusen Iechyd adolygu ei maint, ei graddfa a'i gallu yn awr ac yn y dyfodol.

Drwy gydol y flwyddyn, mae'r Elusen Iechyd wedi parhau i ddarparu cefnogaeth hanfodol i'r rhai mewn angen, diolch i waith caled ac ymrwymiad aelodau'r tîm, a haelioni anhygoel ein codwyr arian, gwirfoddolwyr, cefnogwyr a phartneriaid ymroddedig.

Fel Bwrdd Ymddiriedolwyr a Phwyllgor Cronfeydd Elusennol, rydym wedi gofyn am adolygiad yn seiliedig ar y sefyllfa ariannol gyfredol a byddwn mewn sefyllfa i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am sut rydym yn mynd i'r afael â'r heriau hyn a chreu sefyllfa fwy cynaliadwy yn y tymor hwy.

I'r holl roddwyr, cydweithwyr ac aelodau'r cyhoedd sy'n rhoi mor hael, diolch i bawb am eich cefnogaeth barhaus.



Charles (Jan) Janczewski
**Cadeirydd Ymddiriedolwyr yr Elusen Iechyd**



John Union
**Cadeirydd y Cronfeydd Elusennol**

# Uchafbwyntiau

## Dathlu 75 mlynedd o'r GIG

Yn 2023, dathlodd y GIG 75 mlynedd anhygoel o ddarparu gwasanaethau gofal iechyd ledled y Deyrnas Unedig, ac roedd cydweithwyr yn Nhîm Celfyddydau ar gyfer Iechyd a Thîm Lles yr Elusen Iechyd yn falch o ymuno â'r dathliadau. Gyda chymorth cyfraniadau i'r Gronfa Make it Better a'r Gronfa Celfyddydau, cefnogom wardiau ac adrannau ym mhob rhan o'r Bwrdd Iechyd i gyflwyno amrywiaeth o ddigwyddiadau i nodi'r garreg filltir wych hon.

### Roedd digwyddiadau'n cynnwys:

- Partïon "Te Mawr" mewn wardiau ar draws y Bwrdd Iechyd
- Perfformiadau Cerddoriaeth Fyw yn Ysbyty Athrofaol Llandochau ac Ysbyty Brenhinol Caerdydd
- Cystadleuaeth Enwebu Portread
- Creodd myfyrwyr gradd Meistr ym Mhrifysgol De Cymru berfformiad pwrpasol ar gyfer cleifion a staff y Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Bobl Hŷn yn Ysbyty Athrofaol Llandochau.



# Eich cyfraniadau

## Cyfanswm Incwm 2023/24

# £1.529m

Mae Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro yn defnyddio ystod amrywiol o ddulliau codi arian i gefnogi ei chenhadaeth o wella gofal a lles cleifion. Mae'r rhain yn cynnwys rhoddion unigol, digwyddiadau codi arian yn y gymuned, partneriaethau corfforaethol, cyfraniadau mewn ewyllysiau a chyllid grant.

Mae gan bob un o'r rhain rôl hanfodol wrth gynhyrchu arian i gefnogi'r gwaith o gyflawni prosiectau a mentrau gofal iechyd a lles ar draws Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Rydym yn hynod ddiolchgar i bawb sydd wedi rhoi arian, ein cefnogi a'n noddi gyda'u caredigrwydd a'u haelioni anhygoel eleni.

Mae ymroddiad ac ymrwymiad y tîm codi arian a phartneriaid allanol yn ein galluogi i ddarparu cefnogaeth barhaus i ysbytai a gwasanaethau cymunedol yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg.

# Digwyddiadau Codi Arian

Mae'r amrywiaeth o weithgareddau a digwyddiadau codi arian sy'n digwydd trwy gydol y flwyddyn bob amser yn ein synnu. Dyma gipolwg ar rai o'r rhain:

## Dulliau Dewr

Llongyfarchiadau i'r codwyr arian hynod ddewr a gymerodd i'r awyr eleni i godi arian ar gyfer achosion sy'n agos at eu calonnau

Cwblhaodd **Tîm Codi Arian y Bwrdd Plant ac Ieuenctid** eu digwyddiad plymio o'r awyr hir-ddisgwyliedig ar ôl misoedd o dywydd anrhagweladwy. O'r diwedd, llwyddodd y grŵp i hedfan drwy'r awyr, gan godi arian ar gyfer y Bwrdd Ieuenctid a phlant ar draws Iechyd Plant yn y Gymuned.

**Olivia, Jack, Charlie ac Anais** - a aeth i'r awyr er cof am eu mam-gu annwyl, Anita, a ddioddefodd anaf trawmatig i'w hymennydd yn 2022. Yn anffodus, ni wnaeth Anita wella. Roedd y tîm o bedwar eisiau diolch i Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro am y gofal rhagorol a gafodd Anita ac roeddent yn falch o godi arian er cof amdani.





## **Marathon Stockholm -** Mehefin 2023

Rhedodd Owain Wilkins Farathon Stockholm, gan godi arian ar gyfer yr Uned Hematoleg yn Ysbyty Athrofaol Cymru, er cof am ei fam annwyl, Gaynor. Cododd Owain arian i gefnogi'r staff gwych oedd yn gofalu am ei fam, ac i gynorthwyo eraill sy'n wynebu profiad tebyg.




## **Hanner Marathon Caerdydd -** Hydref 2023

Er cof am Greg Lloyd - Cymerodd tîm o 120 o redwyr, dan arweiniad aelodau'r teulu, ran yn yr Hanner Marathon er cof am Greg, a fu farw'n sydyn. Cododd y deyrnged o'r galon hon i Greg, arian ar gyfer ymchwilio ac atal ataliad sydyn ar y galon hefyd.




**Y Niwtronau -** cymerodd cydweithwyr o'r Tîm Anaf i'r Ymennydd Cymunedol ran yn Hanner Marathon Caerdydd, i helpu i godi arian ar gyfer yr Apêl Prop i gefnogi cleifion Adsefydlu o Anafiadau i'r Ymennydd a'u teuluoedd. Mae'r arian a godwyd wedi cefnogi lles cleifion trwy brynu offer ychwanegol a phrofiadau cyfoethogi.



# Dathlu a chodi arian mewn steil

Ym mis Hydref 2023, ymunodd Ceri Phillips, Cadeirydd BIPCaF, â ni i helpu i ddathlu gwaith anhygoel ein cydweithwyr yn yr Uned Niwrowyddorau ac Adsefydlu'r Asgwrn Cefn yn Ysbyty Athrofaol Llandochau, a chefnogaeth hael codwyr arian yr Apêl Prop yn Nawns Tei Glas PROP, a gynhaliwyd yn y Gyfnewidfa Lo yng Nghaerdydd.

Roedd Cinio Mawreddog Tei Pinc, a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr i godi arian ar gyfer Canolfan y Fron, Ysbyty Athrofaol Llandochau, yn noson fythgofiadwy o geinder a haelioni, ac roeddem wrth ein bodd i gael cwmni noddwr newydd Apêl Canolfan y Fron, yr actor Suzanne Packer.






# Gorffen y flwyddyn ar nodyn

**Cynhaliwyd Gweithdy Creu Torchau Nadolig** i godi arian ar gyfer Rhaglen y Celfyddydau ar gyfer Iechyd a Lles.

Roedd pawb yn mwynhau mins peis a siocled poeth, wrth wrando ar gerddoriaeth Nadolig a chreu eu torchau hardd.

Lansiwyd y **Digwyddiad Shine Bright** yn Ysbyty Athrofaol Llandochau i godi arian ar gyfer "Ein Dôl Iechyd".

Daeth côr Ysgol Gynradd Cogan â hwyl yr ŵyl gydag amrywiaeth o ganeuon, ac ymunodd Cadeirydd y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol, John Union, yn nathliadau'r Nadolig.





# Cronfa Cymunedau Gwyrddach i gefnogi Grow Cardiff

Roedd Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro yn falch iawn o dderbyn grant i gefnogi Tyfu'n Dda, prosiect presgripsiynu cymdeithasol gwyrdd mewn safleoedd garddio cymunedol therapiwtig ledled Caerdydd. Mae'r grant yn rhan o gyfanswm o bron i £1.2 miliwn a ddyrannwyd i greu a gwella mannau gwyrdd ledled y DU, diolch i Gronfa Cymunedau Gwyrddach newydd gan yr elusen amgylcheddol Hubbub ac Elusennau Gyda'n Gilydd y GIG, a ariennir gan enillion o dalu 5c am gwpan Starbucks.

Roedd yr Elusen Iechyd yn un o ddeg elusen y GIG, a'r unig un yng Nghymru, a ddewiswyd i dderbyn yr arian hwn i helpu i wella iechyd a lles pobl a chymunedau lleol, gan gynnwys staff y GIG. Mae manteision y prosiectau'n cynnwys gwella iechyd meddwl, llai o unigedd cymdeithasol a mynediad at ddeietau iach, yn ogystal ag effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd lleol. Roedd y prosiectau hefyd yn hwyluso gwelliannau i fannau cymunedol a mwy o fynediad at natur i bobl â chyfleoedd cyfyngedig, megis cleifion ysbytai ac ymwelwyr, pobl sy'n byw mewn cymunedau trefol neu grwpiau cymunedol penodol.

Mae hwn yn brosiect dwy flynedd barhaus, ac yn ystod y flwyddyn gyntaf, mae enghraifft o'r gweithgareddau ymgysylltu ar gyfer y Prosiect Tyfu'n Dda wedi cynnwys:

- 124 o sesiynau tyfu therapiwtig wythnosol ar draws 3 safle gardd gymunedol Tyfu'n Dda sy'n galluogi cleifion a hunanatgyfeiriadau i gymryd rhan mewn gweithgareddau gardd gymunedol therapiwtig, cyd-ddylunio'r gerddi gwahanol, adeiladu cynwysyddion plannu, hau hadau, plannu, dyfrio, cynaeafu yn ogystal â chelf a chrefft yn yr ardd, coginio, adeiladu a bwydo bywyd gwyllt a chreu cynefinoedd. Cynnal sesiynau rheolaidd gyda thîm Gwneud Iawn â'r Gymuned y Gwasanaeth Prawf sydd wedi helpu i osod llawer o'r nodweddion tirlunio ffisegol newydd ar draws y tair gardd Tyfu'n Dda, cyflawni'r prosiect 'Tyfu'n Dda Creadigol' i sicrhau bod cleifion sy'n cael trafferth gyda'r oerfel yn parhau i gymryd rhan mewn gweithgareddau creadigol dan do sy'n seiliedig ar natur dros fisoedd oeraf y gaeaf.





# Ffyrdd o Gyfrannu a Chefnogi ein Gwasanaethau

## Cronfa Make it Better

Mae llawer o roddwyr a chodwyr arian yn dewis gwneud cyfraniad cyffredinol i Gronfa Make it Better yr Elusen Iechyd. Trwy weithio'n agos gydag arweinwyr cydweithiwr clinigol, gallwn sicrhau bod cronfeydd anghyfyngedig yn cael eu cyfeirio lle mae eu hangen fwyaf. P'un ai i wella gofal cleifion neu gefnogi lles cydweithwyr sy'n gweithio'n galed, sy'n gofalu am anwyliaid, byddwn yn rheoli'r holl roddion yn ddiwyd fel eu bod yn cael eu defnyddio i ddarparu'r cymorth gorau posibl.

## Partner Elusen neu Elusen y Flwyddyn

Mae dod yn bartner elusen yn ffordd wych o gyfrannu at achos da a dod â'ch cydweithwyr at ei gilydd i gael hwyl. Mae cannoedd o fusnesau wedi rhoi sgiliau, amser ac arian gwerthfawr i'r Elusen Iechyd dros y blynyddoedd ac rydym yn gwerthfawrogi pob ceiniog maen nhw wedi'i chodi.

## Rhoddion Cronfeydd Pwrpasol

Rydym yn deall bod rhai rhoddwyr yn dewis cefnogi gwasanaeth neu adran y mae ganddynt hwy a'u hanwyliaid brofiad personol ohono. Enghraifft wych o hyn yw'r bobl anhygoel yn y llun, sydd wedi codi arian ar gyfer Gwasanaethau Cardioleg Bediatrig.

## Zac a Carter yn codi arian

Dechreuodd y brodyr Zac a Carter ar daith ysbrydoledig ym mis Ionawr, gan gerdded 234 cilomedr - sy'n cyfateb i ddau marathon eithafol. Yr hyn sy'n gwneud yr her hon hyd yn oed yn fwy rhyfeddol yw bod y ddau frawd yn byw gyda chyflyrau'r galon.



# Gadael Rhodd yn Eich Ewyllys

Rydym yn hynod ddiolchgar i'r holl roddwyr sy'n dewis cofio BIP Caerdydd a'r Fro yn eu hewyllys. Nid oes angen ymrwymiad ariannol ar unwaith i adael rhodd yn eich ewyllys, ond mae caredigrwydd a haelioni'r rhai sy'n gwneud hynny yn gadael etifeddiaeth barhaus i helpu eraill trwy wasanaethau gofal iechyd yn y dyfodol.

Supported by
Gifts in Wills
Cefnogir gan
Rhodd mewn Ewyllys

## Incwm o Gymynroddion 2023/24

# £206,453





Mae rhai o'r cyfraniadau Rhoddion Mewn Ewyllys a gawsom eleni wedi bod o fudd i amrywiaeth o wasanaethau ar draws y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys:

- Gwasanaethau Asthma
- Arenneg a Thrawsblannu
- Uned Anafiadau Asgwrn y Cefn, YALI
- Rhoddion cyffredinol i wella gofal cleifion a lles staff ar draws y Bwrdd Iechyd a chefnogi ymchwil a datblygu yn Ysbyty Athrofaol Cymru ac Ysbyty Athrofaol Llandochau











# Sut rydym wedi gwario eich cyfraniadau

## Te Prynhawn i Ddathlu De Asia

Roeddem yn falch iawn o gefnogi Prynhawn Dathlu De Asia, i goffáu, nodi a dathlu diwylliannau, treftadaeth a chymunedau De Asia. Mae gan BIPCaF amrywiaeth ddiwylliannol ffyniannus, ac mae cyfran sylweddol o'n gweithlu ymroddedig yn dod o dreftadaeth De Asiaidd. Cynhaliwyd y digwyddiad i fynegi diolchgarwch a thynnu sylw at y cyfraniad enfawr y mae cymunedau De Asia yn ei wneud i wasanaethau gofal iechyd ledled Caerdydd a Bro Morgannwg.



## Malawi

Aeth myfyrwyr optometreg ar leoliad ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, ar daith ystyrlon i Malawi yn Ne-ddwyrain Affrica. Mae'r prif diwtor, Pete Hong, yn gweithio yn y Tîm Offthalmoleg yn Ysbyty Athrofaol Cymru ac ym Mhrifysgol Caerdydd. Eu nod oedd cynnal profion golwg a darparu addysg i gofrestryddion. Cafodd y fenter hon gefnogaeth rannol gan y Gronfa Offthalmoleg, un o'r cronfeydd elusennol a ddelir gan Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro.



# Gwobrau

## Ein Dôl Iechyd

Eleni, daeth Ein Dôl Iechyd yn Ysbyty Athrofaol Llandochau yn ail yng nghategori gwobrau Coedwig y GIG 2023 ar gyfer

*"defnydd arloesol o ofod gwyrdd gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol."*

Dywedodd y Pwyllgor Dyfarnu,

*"Roeddem wrth ein bodd yn clywed am brosiect Ein Dôl Iechyd ac roedd nifer y bobl sydd wedi ymgysylltu'n uniongyrchol â hi wedi creu argraff fawr arnom."*

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn datblygu gofod arloesol yn ei safle yn Ysbyty Athrofaol Llandochau.

Ein Dôl Iechyd – Mae Ein Dôl Iechyd yn dod â'r weledigaeth o berllan gymunedol yn fyw yn y caeau o amgylch y safle. Ein nod yw sefydlu parc iechyd cymunedol ecolegol i fod o fudd i fywyd gwyllt, planhigion a phobl drwy ryngweithio cadarnhaol rhwng bodau dynol a'r amgylchedd. Ein Dôl Iechyd - Mae Ein Dôl Iechyd eisoes wedi bod o fudd i gannoedd o gleifion, staff, ymwelwyr a'r gymuned ehangach.





# Cynllun Loteri'r Staff

Mae Loteri'r Staff yn parhau i dyfu ac rydym yn hynod ddiolchgar i'n cydweithwyr anhygoel sy'n cymryd rhan yn Loteri Staff fisol yr Elusen Iechyd. Mae'r Loteri yn rhoi cyfle gwych bob mis i bedwar cydweithiwr lwcus ennill £1,000, ond yn 2023, gwnaethom hefyd gynnal dwy "loteri fawr" gan gynnwys £7 mil ym mis Mai a £23 mil ym mis Tachwedd!

Mae'r incwm a dderbynnir i'r Elusen drwy'r Loteri ac a weinyddir gan Banel Cynigion Loteri'r Staff, yn darparu cymorth i amrywiaeth eang o anghenion ar draws y Bwrdd Iechyd. Mae rhai o'r rhain wedi'u hamlygu yma:




## Prosiect Cysuro Synhwyraidd

Yn ddiweddar, lansiodd y Seiciatreg Cyswllt ar gyfer Pobl Hŷn (LPOP) y Prosiect Synhwyraidd Lledrithiol, gan gefnogi cleifion sy'n profi problemau iechyd meddwl acíwt ar wardiau meddygol trwy ddarparu eitemau a gweithgareddau synhwyraidd a therapiwtig.



## Gwelliannau CEF Caerdydd

Cafodd yr Adran Gofal Iechyd yng Ngharchar Ei Fawrhydi Caerdydd, ei thrawsnewid wrth osod finyls croesawgar ar waliau.

Roedd Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro yn falch iawn o gefnogi'r prosiect hwn, gan ei fod yn anelu at wella lles cleifion a staff yn uniongyrchol yng ngwasanaethau gofal iechyd y carchar, a ddarperir gan gydweithwyr yn y GIG. Gan gydnabod bod hwn yn amgylchedd o straen mawr, cydnabu'r elusen yr effaith sylweddol y gall gwell mannau ac awyrgylch dan do ei chael ar fywydau beunyddiol cydweithwyr a chleifion, gan gyfrannu at amgylchedd mwy hamddenol a siriol.



## Grŵp Pêl-droed

Mae'r adran Iechyd Meddwl yn y Gymuned yn cynnal grŵp pêl-droed ar gyfer ei chleifion. Er mwyn sicrhau bod y grŵp yn yfed digon o ddŵr wrth wneud ymarfer corff, darparwyd cyllid ar gyfer prynu poteli dŵr yn ogystal â bibiau hyfforddi newydd.



# Grwpiau Cerdded Nordig

Mae aelodau'r Grwpiau Cerdded Nordig yn cynnwys pobl sy'n byw gyda phoen yn y cymalau sydd wedi cymryd rhan yn y rhaglen Galluogi Hunanreolaeth ac Ymdopi â Phoen Arthritig gan ddefnyddio Ymarfer Corff (ESCAPEE), a ddarperir gan y Gwasanaeth Byw'n Dda. Roedd arian Loteri'r Staff yn caniatáu i'r grŵp brynu polion cerdded ychwanegol, gan alluogi'r gweithgaredd i gael ei gyflwyno i wahanol ardaloedd ledled Caerdydd a'r Fro, gan roi cyfle i fwy o gleifion fanteisio ar y gweithgaredd hynod fuddiol hwn.

# Cerrig Camu

Darparwyd cyllid i helpu i argraffu'r pecyn cymorth Cerrig Camu a ddyluniwyd gan y Grŵp Cydgynhyrchu Byw'n Dda.

Mae Grŵp Cydgynhyrchu Byw'n Dda yn dwyn ynghyd aelodau o bob cefndir, gan rannu gweledigaeth i drawsnewid iechyd, lles a phrofiady rheiny sy'n byw gyda chyflyrau hirdymor. Maen nhw'n defnyddio dull cydweithredol sy'n canolbwyntio ar y gymuned sy'n cyflawni canlyniadau sy'n bwysig, wedi'u hategu gan ymddiriedaeth, parch a chyfrifoldeb ar y cyd, o fewn amgylchedd diogel, cynhwysol a chyfranogol.






# Y Ffordd Ymlaen...

Diolch am eich cefnogaeth a'ch haelioni gwych yn 2023-24.

Yn y flwyddyn i ddod, byddwn yn parhau i weithio ochr yn ochr â'r Bwrdd Iechyd wrth iddo adolygu ac ailddatblygu fframwaith y gwasanaethau gofal iechyd i ddiwallu anghenion cymuned Caerdydd a Bro Morgannwg.

Byddwn yn alinio hyn ag adolygiad o Strategaeth yr Elusen Iechyd ar gyfer 2020-2025, er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni prif nod yr Elusen sef: "Mynd y tu hwnt i wasanaethau'r GIG er budd cleifion, staff a chymunedau". I ddarllen mwy, ewch i:

https://healthcharity.wales/Strategy.2020-2025

Gallwch ddysgu mwy am Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro a ffyrdd o gefnogi Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro drwy roddion, codi arian neu wirfoddoli ar ein gwefan. www.healthcharity.wales/cy

Cardiff & Vale HealthCharity ElusenIechyd Caerdydd a'r Fro

www.healthcharity.wales

#TeamHealthCharity
Dewch o hyd i ni @health_charity

# Cyfrifon Blynyddol

# Crynodeb o Gyflawniadau a Pherfformiad Ariannol

## Crynodeb o Incwm

Cyfanswm yr adnoddau a dderbyniwyd ar gyfer y flwyddyn 2023-24 oedd £1.529 miliwn sy'n ostyngiad o £0.674 miliwn o'r flwyddyn ariannol flaenorol.

Cynhyrchwyd incwm yr Elusen o roddion, cymynroddion, incwm buddsoddi a gweithgareddau masnachu eraill.




**Rhoddion (21% - £0.320 miliwn)**
Mae'r Elusen yn ddiolchgar iawn o fod wedi derbyn rhoddion o £0.320 miliwn i'n helpu i gyflawni ein nodau a'n hamcanion.

**Cymynroddion (13% - £0.206 miliwn)**
Derbyniodd yr Elusen £0.206 miliwn mewn cymynroddion. Rydym yn hynod ddiolchgar i'r unigolion hynny a gofiodd ein wardiau a'n hadrannau yn eu hewyllys.

**Gweithgareddau Masnachu Eraill (26% - £0.395 miliwn)**
Cynhyrchodd yr Elusen £0.305 miliwn drwy Loteri Staff Caerdydd a'r Fro a £0.080 miliwn arall drwy weithgareddau eraill.

**Incwm Buddsoddi (10% - £0.154 miliwn)**
Y Difidendau a'r Llog o Bortffolio Buddsoddi'r Elusen oedd £0.154 miliwn.

**Incwm Grant (30% - £0.454 miliwn)**
Derbyniodd yr Elusen £0.454 miliwn mewn grantiau gan sefydliadau allanol.

# Dadansoddiad o Wariant 2023/2024

Yn 2023/2024 y gwariant ar weithgareddau elusennol oedd £2.123 miliwn. Roedd hyn yn cynnwys addysg a lles cleifion, addysg a lles staff, ymchwil ac eitemau eraill.




**Buddsoddiadau a pherfformiad**

Yn ystod 2023/2024 gwelodd yr Elusen golledion gwerth marchnad o £0.246 miliwn.

**Sefyllfa ariannol gyffredinol**

Mae gwerth cyffredinol yr Elusen ar 31 Mawrth 2024 wedi gostwng o falans agoriadol o £10.259 miliwn i £9.354 miliwn. Mae'r symudiad hwn o £0.905 miliwn yn cael ei gynrychioli gan wariant net o £1.068 miliwn, enillion buddsoddi o £0.246 miliwn a mynegeio o (£0.0825 miliwn).

# Cyfrifon Elusennau Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro 2023 / 2024

## Rhagair

Paratowyd y Cyfrifon (datganiadau ariannol) yn unol â'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir: Cyfrifo ac Adrodd gan Elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (FRS102) a gyhoeddwyd ar 16 Gorffennaf 2014 a Deddf Elusennau 2011 ac Arferion a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y DU fel y bo'n gymwys o 1 Ionawr 2015.

## Cefndir Statudol

Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro yw ymddiriedolwr corfforaethol yr elusen o dan baragraff 16c o Atodlen 2 i Ddeddf y GIG a Gofal Cymunedol 1990.

Penodwyd yr Ymddiriedolwyr o dan adran 11 o Ddeddf y GIG a Gofal Cymunedol 1990.

## Prif Ddiben y Cronfeydd a Ddelir ar Ymddiriedaeth

Prif ddiben yr elusen yw cymhwyso incwm at unrhyw ddibenion elusennol sy'n ymwneud â'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir gan Fwrdd Iechyd Lleol Caerdydd a'r Fro.

# Strwythur, Llywodraethu a Rheoli

## Yr Elusen

Crëwyd yr Elusen Iechyd ar 3 Mehefin 1996 gan Weithred Ymddiriedolaeth ac, yn dilyn ad-drefnu gwasanaethau iechyd, cafodd ei diwygio gan Weithred Atodol ar 12 Gorffennaf 2001 a 2 Rhagfyr 2010. Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro yw Ymddiriedolwr Corfforaethol yr Elusen Iechyd. Mae'r BIP yn dirprwyo'r cyfrifoldeb am reoli'r arian i'r Pwyllgor Cronfeydd Elusennol. Nod yr Ymddiriedolwr Corfforaethol (Ymddiriedolwr) yw codi a defnyddio cronfeydd elusennol i ddarparu'r budd mwyaf posibl i gleifion BIP Caerdydd a'r Fro a gwasanaethau iechyd lleol cysylltiedig yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg, drwy ategu yn hytrach na dirprwyo cyllid y llywodraeth ar gyfer gwasanaethau craidd y GIG.

## Cofrestriad

Trosglwyddwyd y Cronfeydd Elusennol a ddelir gan Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro i Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn rhinwedd Offeryn Statudol 2009 Rhif 1558 Gorchymyn Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trosglwyddo Staff, Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau) (Cymru) 2009. Newidiodd y weithred atodol, dyddiedig 2 Rhagfyr 2010, enw'r Elusen Iechyd yn ffurfiol i Elusen Diben Cyffredinol Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro – Rhif Elusen Gofrestredig 1056544. Mae gan yr Elusen Iechyd nifer o elusennau cyfansoddol ac mae'r rhain wedi'u rhestru isod:

- Catherine Jenkins
- Elusen Gyffredinol Addysg a Hyfforddiant
- Elusen Ysbyty Rookwood
- Elusen Gyffredinol Ysbyty Rookwood
- Elusen Gyffredinol Ymchwil a Datblygu
- Elusen Gyffredinol Lles Staff a Chleifion
- Cronfa Hyfforddiant, Ymchwil ac Addysg
- Elusen Gyffredinol Ysbyty Athrofaol Cymru

Mae'r cofrestriad hefyd yn cwmpasu Cronfa Buddsoddi ar y Cyd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (Cronfeydd Gwariadwy). Mae hyn yn cyfuno cronfeydd yr Elusen Iechyd yn un gronfa at ddibenion buddsoddi.

## Cyfansoddiad

Mae Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn dal cronfeydd elusennol fel yr unig ymddiriedolwr corfforaethol ac mae aelodau bwrdd y Bwrdd Iechyd yn gyfrifol ar y cyd am reoli'r cronfeydd elusennol hynny. Roedd aelodaeth y bwrdd fel a ganlyn ar yr adeg y cymeradwywyd yr adroddiad blynyddol.

## Swyddog Aelodau

| | |
|---|---|
| Suzanne Rankin | Prif Weithredwr |
| Jason Roberts | Cyfarwyddwr Nyrsio Gweithredol |
| Paul Bostock | Prif Swyddog Gweithredu |
| Abigail Harri | Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio Strategol tan 31/3/24 |
| Catherine Phillips | Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid |
| Rachael Gidman | Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl a Diwylliant |
| Dr Fiona Jenkins | Cyfarwyddwr Gweithredol Therapïau a Gwyddor Iechyd a hefyd Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Therapïau a Gwyddor Iechyd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf. Mae hon yn rôl ddeuol, tan 31/3/24 |
| Fiona Kinghorn | Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd tan 29/12/2023 |
| Claire Beynon | Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd o 30/12/2023 |
| Yr Athro Meriel Jenney | Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol tan 31/3/24 |

## Cyfarwyddwyr Eraill

| | |
|---|---|
| James Quance | Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol Dros Dro, tan 04/08/2023 |
| Matt Phillips | Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol o 07/08/2023 |
| David Thomas | Cyfarwyddwr Deallusrwydd Digidol ac Iechyd |
| Joanne Brandon | Cyfarwyddwr y Tîm Cyfathrebu, y Celfyddydau, yr Elusen Iechyd ac Ymgysylltu |

## Aelodau Annibynnol

| | |
|---|---|
| Charles Janczewski | Cadeirydd |
| Ceri Phillips | Is-gadeirydd |
| Michael Imperato | Aelod Annibynnol - Cyfreithiol tan 31/08/2023 |
| John Union | Aelod Annibynnol - Cyllid |
| David Edwards | Aelod Annibynnol - Cyfathrebu Gwybodaeth a Thechnoleg |
| Sara Moseley | Aelod Annibynnol - Trydydd Sector (Sector Gwirfoddol) |
| Y Cynghorydd Susan Elsmore | Aelod Annibynnol - Awdurdod Lleol tan 31/10/2023 |
| Susan Lloyd-Selby | Aelod Annibynnol – Awdurdod Lleol o 01/03/2024 |
| Akmal Hanuk | Aelod Annibynnol - Cymuned Leol |
| Rhian Thomas | Aelod Annibynnol - Ystadau Cyfalaf |
| Mike Jones | Aelod Annibynnol - Undeb Llafur |
| Keith Harding | Aelod Annibynnol - Prifysgol tan 30/11/2023 |

## Aelodau Cyswllt

| | |
|---|---|
| Sam Austin | Cadeirydd, Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid tan 31/10/2023 |
| Lani Tucker | Cadeirydd, Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid o 17/01/2024 |
| Lance Carver | Aelod Cyswllt - Awdurdod Lleol tan 28/02/2024 |

# Pwyllgor Cronfeydd Elusennol

Mae gan y Pwyllgor y gyfrifoldeb i:

- Reoli a monitro'r defnydd o adnoddau'r cronfeydd er budd y cyhoedd, gan roi sylw i'r canllawiau a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Elusennau
- Cytuno ar drefniadau llywodraethu ar gyfer safonau a monitro
- Adolygu strategaeth i sicrhau'r manteision mwyaf posibl i'r Elusen Iechyd
- Pennu strategaeth fuddsoddi'r Elusen Iechyd
- Cytuno ar gynlluniau gwariant
- Pennu amcanion a strategaeth codi arian

Rhestrir aelodau'r pwyllgor a wasanaethodd yn ystod 2023/24 isod:

John Union - Aelod Annibynnol – Cadeirydd o 01/04/23
Mike Jones - Is-gadeirydd y Pwyllgor - Aelod Annibynnol - Undeb Llafur
Catherine Phillips - Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid
Rachel Gidman - Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl a Diwylliant
Fiona Jenkins - Cyfarwyddwr Gweithredol Therapïau a Gwyddor Iechyd tan 31/03/24
Matt Phillips - Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol o 07/08/2023
James Quance - Cyfarwyddwr Llywodraethu Dros Dro tan 04/08/2023
Susan Elsmore - Aelod Annibynnol - Awdurdod Lleol tan 31/10/2023
Susan Lloyd-Selby - Aelod Annibynnol – Awdurdod Lleol o 01/03/2024
Sara Moseley - Aelod Annibynnol - Trydydd Sector
Joanne Brandon - Cyfarwyddwr y Tîm Cyfathrebu, y Celfyddydau, yr Elusen Iechyd ac Ymgysylltu

# Cronfeydd Elusennol

Mae'r Elusen yn cynnwys mwy na 300 o gronfeydd gwahanol, pob un â phwrpas penodol boed hynny ar gyfer ymchwil, hyfforddiant neu ardal benodol o ysbyty neu adran. Dyrennir yr holl arian a dderbynnir i'r cronfeydd hyn. Defnyddir y gronfa pwrpas cyffredinol lle mae'r rhoddwr yn dymuno i'r Elusen ddyrannu arian i gefnogi'r prosiectau a'r gweithgareddau sydd â'r angen mwyaf am gymorth ar draws y BIP cyfan. Rheolir pob cronfa gan ddeiliad cronfa arbenigol – yn gyffredinol arbenigwr yn y maes penodol sy'n berthnasol i'r gronfa. Mae'r Elusen yn gyfrifol am ddarparu arweiniad, gwybodaeth ariannol a chyngor i ddeiliaid cronfeydd.

Rydym yn rheoli tri math o arian:

Cronfeydd anghyfyngedig – cronfeydd cyffredinol yw'r rhain a dyma'r cronfeydd y gellir eu gwario yn ôl disgresiwn yr Ymddiriedolwyr i wella'r gwasanaethau ar draws y BIP

Cronfeydd cyfyngedig – dim ond yn unol â'r cyfyngiadau a osodwyd gan yr Elusen pan gawsant eu rhoi neu eu codi y gellir gwario'r rhain.

Cronfeydd gwaddol – lle mae cronfeydd cyfalaf ar gael i'n Helusen ac mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i'r Ymddiriedolwyr eu buddsoddi neu eu cadw. Lle mae gwaddol parhaol yn bodoli, nid oes gan Ymddiriedolwyr bŵer awtomatig i wario'r cyfalaf. Os yw'r gronfa'n waddol y gellir ei gwario, mae gan Ymddiriedolwyr y pŵer i drosi cyfalaf yn incwm.

Mae'r gwaith o weinyddu arian o ddydd i ddydd yn cael ei wneud gan:

Yr Adran Cronfa Elusennol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro,
2il Lawr, TŵCoetir,
Caerdydd CF14 4HH

## Rheoli Risg Buddsoddi

Mae'r Cwmni Rheoli Buddsoddiadau yn sgrinio'r buddsoddiadau cyn eu prynu i gydymffurfio â'r polisi moesegol. Yn ogystal, caiff daliadau presennol eu sgrinio'n rheolaidd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth barhaus. Pe bai'r gronfa'n prynu perchenogaeth mewn daliad nad oedd yn cydymffurfio a nodwyd hynny yn ystod y broses o brynu'r berchenogaeth, byddai'r buddsoddiad yn cael ei werthu wedyn.

Nid oes gan y portffolio fuddsoddiadau mewn cwmnïau y mae eu prif weithgareddau gweithgynhyrchu yn gysylltiedig â thybaco, alcohol, arfogaeth a phornograffi / adloniant i oedolion. Mae hyn yn cynnwys cronfeydd buddsoddi ar y cyd (a chynhyrchion tebyg) sy'n ymgorffori'r rhain yn eu portffolio.

## Polisi Cronfeydd Wrth Gefn

Strategaeth yr Ymddiriedolwr Corfforaethol yw cymhwyso cronfeydd elusennol o fewn amser rhesymol o'u derbyn, yn ddelfrydol o fewn blwyddyn i ddwy flynedd, oni bai bod gofynion penodol ynghlwm wrth incwm. Yn hanesyddol, mae lefel y gwariant wedi'i brasamcanu'n gyffredinol i lefel yr incwm, gyda chronfeydd wrth gefn mwy na'r angen yn cael eu cadw i reoli unrhyw amrywiadau. Mae'r polisi cronfeydd wrth gefn presennol yn nodi y dylai'r Elusen gadw'r cronfeydd wrth gefn canlynol:

- Cronfa fuddsoddi asedau sefydlog ar wahân, yn seiliedig ar 10% o'r buddsoddiadau asedau gwerth sefydlog (tua £550,000)
- Isafswm o £500,000 i sicrhau bod digon o arian ar gyfer ymrwymiadau parhaus

O safbwynt prosesau, nid oes cronfa unigol sy'n dal yr holl gronfeydd wrth gefn, ond ystyrir bod lefel bresennol y cronfeydd wrth gefn yn fwy na digonol ar gyfer anghenion cyfredol. Wrth symud ymlaen bydd yr Elusen yn adolygu'r polisi cronfeydd wrth gefn i adlewyrchu unrhyw newidiadau i sefyllfa ariannol yr Elusen.

## Risg Contract Buddsoddi

Rathbone yw Cwmni Rheoli Buddsoddiadau Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro, a dechreuodd ar 1 Mehefin 2021 am gyfnod o dair blynedd gydag opsiwn i ymestyn am ddwy flynedd arall.

Mae'r Elusen yn ceisio sicrhau'r enillion mwyaf posibl ar gronfeydd tra'n mabwysiadu polisi ceidwadol ar risg a strwythur hyblyg mewn perthynas â Dosbarthu Dosbarth Asedau. Mae'r portffolio wedi'i strwythuro i alluogi amrywiaeth o fuddsoddiadau er mwyn cynhyrchu cyfradd enillion gystadleuol. Mae gan y cyfarwyddwr buddsoddi awdurdod dirprwyedig i brynu a gwerthu buddsoddiadau wrth i gyfleoedd yn y farchnad godi. Mae'r Rheolwyr Buddsoddi yn mynychu'n ffurfiol ac yn adrodd i'r Pwyllgor Cronfeydd Elusennol ddwywaith y flwyddyn.

# Risg Rheolaeth Ariannol

Mae gweithdrefn rheolaeth ariannol, canllaw gwariant, fframwaith llywodraethu a strategaeth wedi'u datblygu i sicrhau bod digon o reolaethau rheoli ar waith i:

- Sicrhau bod gwariant yn unol â'r amcanion a'r blaenoriaethau y cytunwyd arnynt gan y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol
- Sicrhau bod y meini prawf ar gyfer gwario arian elusennol yn cael eu bodloni'n llawn
- Sicrhau bod cofnodion cyfrifyddu'n cael eu cadw
- Sicrhau bod penderfyniadau datganoledig o fewn paramedrau penodol.

Mae'r Adran Archwilio Mewnol hefyd yn cynnal adolygiadau blynyddol i werthuso digonolrwydd gweithdrefnau a rheolaethau, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth a rhoi sicrwydd rhesymol ynghylch:

- Cyflawni amcanion rheoli ar gyfer y systemau
- Defnydd economaidd ac effeithlon o adnoddau
- Cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau
- Diogelu asedau

Cyflwynir yr adroddiadau Archwilio Mewnol i'r Pwyllgor Cronfeydd Elusennol a Phwyllgor Archwilio a Sicrwydd y Bwrdd, ac mae'r rhain yn fesur allweddol o ran lliniaru risg rheoli.

# Ymgynghorwyr

| | |
|---|---|
| **Bancwyr** | Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth<br>Southern House<br>7fed Llawr<br>Wellesley Grove<br>Croydon<br>CF9 1WW |
| **Rheolwyr Buddsoddi** | Rathbone Brothers Plc<br>8 Finsbury Circus<br>Llundain<br>EC2M 7A2 |
| **Archwilwyr Allanol** | Archwilydd Cyffredinol Cymru<br>1 Cwr y Ddinas<br>Stryd Tyndall<br>Caerdydd<br>CF10 4BZ |
| **Archwilwyr Mewnol** | Adran Archwilio Mewnol Partneriaeth Gwasanaethau a Rennir GIG Cymru<br>Llawr Cyntaf, Tŷ Coetir<br>Caerdydd<br>CF14 4HH |
| **Ymgynghorwyr TAW** | Ernst & Young LLP<br>The Paragon<br>Counterslip<br>Bryste<br>BS1 6BX |

**Cyfrifon Elusennau Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro 2023/2024**

**Datganiad o Weithgareddau Ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth I ben 31 Mawrth 2024**

| | Nodyn | Cronfeydd anghyfyngedig £000 | Cronfeydd cyfyngedig £000 | Cronfeydd gwaddol £000 | Cyfanswm 2023-24 £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Adnoddau sy'n dod i mewn o gronfeydd a gynhyrchwyd:** | | | | | |
| Rhoddion a Gwaddol | 4 | 255 | 271 | 0 | 526 |
| Grantiau | 4 | 0 | 454 | 0 | 454 |
| Gweithgareddau masnachu eraill | 5 | 9 | 386 | 0 | 395 |
| Incwm buddsoddi | 6 | 92 | 61 | 1 | 154 |
| Cyfanswm yr adnoddau a ddaeth i mewn | | 356 | 1,172 | 1 | 1,529 |
| **Gwariant ar:** | | | | | |
| Codi arian | 7 | 381 | 94 | 0 | 475 |
| Gweithgareddau elusennol | 8 | 756 | 1,342 | 25 | 2,123 |
| Cyfanswm gwariant | | 1,137 | 1,436 | 25 | 2,598 |
| Enillion/(colledion) net ar fuddsoddiadau | 14 | 246 | 0 | 0 | 246 |
| **Incwm/(gwariant) net** | | (535) | (264) | (24) | (823) |
| Trosglwyddo rhwng cronfeydd | | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Symudiad net mewn cronfeydd** | | (535) | (264) | (24) | (823) |
| Enillion/(colledion) ar ailbrisio asedau sefydlog | 13 | 0 | 0 | (82) | (82) |
| **Cysoni cronfeydd** | | (535) | (264) | (106) | (905) |
| Cyfanswm y cronfeydd a ddygwyd ymlaen ar 1 Ebrill 2023 | 20 | 3,472 | 2,459 | 4,328 | 10,259 |
| **Cyfanswm y cronfeydd a gariwyd ymlaen ar 31 Mawrth 2024** | | **2,937** | **2,195** | **4,222** | **9,354** |

**Cyfrifon Elusennau Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro 2022/2023**

**Datganiad o Weithgareddau Ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023**

| | Nodyn | Cronfeydd anghyfyngedig £000 | Cronfeydd cyfyngedig £000 | Cronfeydd gwaddol £000 | Cyfanswm 2022-23 £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Adnoddau sy'n dod i mewn o gronfeydd a gynhyrchwyd:** | | | | | |
| Rhoddion a Chymynroddion - (Wedi'i ailddatgan) | 4 | 577 | 251 | 0 | 828 |
| Grantiau - (Wedi'i ailddatgan) | 4 | 0 | 871 | 0 | 871 |
| Gweithgareddau masnachu eraill | 5 | 0 | 363 | 0 | 363 |
| Incwm buddsoddi | 6 | 92 | 48 | 1 | 141 |
| **Cyfanswm yr adnoddau a ddaeth i mewn** | | 669 | 1,533 | 1 | 2,203 |
| **Gwariant ar :** | | | | | |
| Codi arian | 7 | 365 | 90 | 0 | 455 |
| Gweithgareddau elusennol | 8 | 845 | 1,115 | 24 | 1,984 |
| **Cyfanswm gwariant** | | 1,210 | 1,205 | 24 | 2,439 |
| Enillion/(colledion) net ar fuddsoddiadau | 14 | (323) | 0 | (2) | (325) |
| **Incwm/(gwariant) net** | | (864) | 328 | (25) | (561) |
| Trosglwyddo rhwng cronfeydd | | (4) | 4 | 0 | 0 |
| **Symudiad net mewn cronfeydd** | | (868) | 332 | (25) | (561) |
| Enillion/(colledion) ar ailbrisio asedau sefydlog | 13 | 0 | 0 | 1,832 | 1,832 |
| **Cysoni cronfeydd** | | (868) | 332 | 1,807 | 1,271 |
| Cyfanswm y cronfeydd a ddygwyd ymlaen ar 1 Ebrill 2022 (Wedi'i ailddatgan) | 20 | 4,340 | 2,127 | 2,521 | 8,988 |
| **Cyfanswm y cronfeydd a gariwyd ymlaen ar 31 Mawrth 2023** | | **3,472** | **2,459** | **4,328** | 10,259 |

**Cyfrifon Elusennau Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro 2023/2024**

**Datganiad Llifoedd Arian Parod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrt**

| | Nodyn | Cyfanswm Cronfeydd 2023-24 £000 | Cyfanswm Cronfeydd 2022-23 £000 |
|---|---|---|---|
| Llifoedd arian parod o weithgareddau gweithredol: | | | |
| Arian parod net yn deillio o (defnyddiwyd mewn) gweithgareddau gweithredol | 18 | (488) | (486) |
| Llifoedd arian parod o weithgareddau buddsoddi: | | | |
| Difidend, llog a rhenti o fuddsoddiadau | 6 | 154 | 141 |
| Symudiad mewn Arian Buddsoddi | 14 | (213) | 69 |
| Enillion o werthu buddsoddiadau | | 1,156 | 3,611 |
| Prynu buddsoddiadau | 14 | (943) | (2,982) |
| Arian parod net yn deillio o (defnyddiwyd mewn) gweithgareddau buddsoddi | | 154 | 839 |
| Newid mewn arian a chywerthoedd arian parod yn y cyfnod adrodd | | (335) | 353 |
| Arian parod a chywerthoedd arian parod ar ddechrau'r cyfnod adrodd | 16 | 560 | 207 |
| Arian parod a chywerthoedd arian parod ar ddiwedd y cyfnod adrodd | 16 | 226 | 560 |

Mae'r nodiadau ar dudalen 28 i 44 yn rhan o'r cyfrifon hyn

**Cyfrifon Elusennau Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro 2023/2024**

**Mantolen ar 31 Mawrth 2024**

| | Nodyn | Cronfeydd anghyfyngedig £000 | Cronfeydd Incwm cyfyngedig £000 | Cronfeydd gwaddol £000 | Cyfanswm 31 Mawrth 2024 £000 | Cyfanswm 31 Mawrth 2023 £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Asedau sefydlog:** | | | | | | |
| Asedau diriaethol | 13 | 0 | 0 | 4,182 | 4,182 | 4,288 |
| Buddsoddiadau | 14 | 3,238 | 2,513 | 38 | 5,789 | 5,546 |
| **Cyfanswm asedau sefydlog** | | 3,238 | 2,513 | 4,220 | 9,971 | 9,834 |
| **Asedau cyfredol:** | | | | | | |
| Dyledwyr | 15 | 47 | 92 | 0 | 139 | 502 |
| Arian parod a chywerthoedd arian pa | 16 | 128 | 96 | 2 | 226 | 560 |
| **Cyfanswm asedau cyfredol** | | 175 | 188 | 2 | 365 | 1,062 |
| **Asedau anghyfredol:** | | | | | | |
| Dyledwyr | 15 | 10 | 1 | 0 | 11 | 12 |
| **Rhwymedigaethau:** | | | | | | |
| Credydwyr: symiau'n ddyledus o fewn blwyddyn | 17 | 486 | 506 | 0 | 992 | 649 |
| **Asedau cyfredol net/(rhwymedigaethau)** | | (301) | (318) | 2 | (617) | 425 |
| **Cyfanswm asedau net/(rhwymedigaethau)** | | 2,937 | 2,195 | 4,222 | 9,354 | 10,259 |
| **Cronfeydd yr elusen:** | | | | | | |
| Cronfeydd gwaddol | 20 | 0 | 0 | 40 | 40 | 40 |
| Cronfa ailbrisio wrth gefn | 20 | 0 | 0 | 4,182 | 4,182 | 4,288 |
| Cronfeydd incwm cyfyngedig | 20 | 0 | 2,195 | 0 | 2,195 | 2,459 |
| Cronfeydd incwm anghyfyngedig | 20 | 2,937 | 0 | 0 | 2,937 | 3,472 |
| **Cyfanswm cronfeydd** | | 2,937 | 2,195 | 4,222 | 9,354 | 10,259 |

**Cyfarwyddwr Cyllid**

**Mrs Catherine Phillips**

**Date...23 Ionawr 2025**

# NOTES TO THE ACCOUNTS

## 1. Polisïau cyfrifyddu

### a) Sail Paratoi

Paratowyd y datganiadau ariannol o dan y confensiwn cost hanesyddol, ac eithrio asedau sefydlog diriaethol a buddsoddiadau sydd wedi'u cynnwys mewn prisiad.

Paratowyd y cyfrifon (datganiadau ariannol) yn unol â'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir: Cyfrifo ac Adrodd gan Elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) a gyhoeddwyd ar 16 Gorffennaf 2014 a'r Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) a Deddf Elusennau 2011 ac Arferion a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y DU fel y mae'n gymwys o 1 Ionawr 2015.

Mae'r cyfrifon (datganiadau ariannol) wedi'u paratoi i roi darlun "gwir a theg" ac wedi gwyro oddi wrth Reoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 dim ond i'r graddau sy'n ofynnol i ddarparu darlun "cywir a theg". Mae'r ymadawiad hwn wedi cynnwys dilyn y trefniadau Cyfrifo ac Adrodd gan Elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) a gyhoeddwyd ar 16 Gorffennaf 2014 yn hytrach na Chyfrifeg ac Adrodd gan Elusennau: Datganiad o'r Arfer a Argymhellir a ddaeth i rym o 1 Ebrill 2005 ond sydd wedi'i dynnu'n ôl ers hynny.

Mae'r Ymddiriedolwyr o'r farn nad oes unrhyw ansicrwydd perthnasol ynghylch gallu'r Elusen i barhau fel busnes gweithredol. Yn y dyfodol, y risgiau allweddol i'r Elusen yw gostyngiad mewn incwm o roddion neu ostyngiad mewn incwm buddsoddi ond mae gan yr Ymddiriedolwyr drefniadau ar waith i liniaru'r risgiau hynny (gweler yr adrannau Rheoli Risg Buddsoddi a Pholisi Chronfeydd Wrth Gefn yn yr adroddiad blynyddol am ragor o wybodaeth). Mae'r Elusen yn bodloni'r diffiniad o endid budd cyhoeddus o dan FRS

### b) Os oes cyfyngiad cyfreithiol ar y diben ar gyfer gosod cronfa, caiff y gronfa ei dosbarthu naill ai fel:

- Cronfa gyfyngedig neu
- Gronfa waddol

Cronfeydd cyfyngedig yw'r rhai lle mae'r rhoddwr wedi darparu ar gyfer gwario'r rhodd i hyrwyddo diben elusennol penodedig.

Mae cronfeydd gwaddol yn codi pan fydd y rhoddwr wedi darparu'n benodol y caiff y rhodd ei fuddsoddi ac mai dim ond incwm y gronfa y gellir ei wario. Caiff y cronfeydd hyn eu his-ddadansoddi rhwng y rhai lle mae gan yr ymddiriedolwyr y disgresiwn i wario'r cyfalaf (gwariadwy) a'r rhai lle nad oes disgresiwn i wario'r cyfalaf (gwaddol parhaol).

Mae'r cronfeydd hynny nad ydynt yn waddol nac yn gronfa incwm gyfyngedig, yn gronfeydd incwm anghyfyngedig sy'n cael eu his-ddadansoddi rhwng cronfeydd dynodedig (wedi'u clustnodi) lle mae'r ymddiriedolwyr wedi neilltuo symiau i'w defnyddio at ddibenion penodol neu sy'n adlewyrchu dymuniadau rhoddwyr nad ydynt yn rhwymol a chronfeydd anghyfyngedig sydd yn ôl disgresiwn yr ymddiriedolwyr, gan gynnwys y gronfa gyffredinol sy'n cynrychioli cronfeydd wrth gefn yr elusen.

## c) Adnoddau sy'n dod i mewn

Cydnabyddir yr holl adnoddau sy'n dod i mewn unwaith y bydd gan yr elusen hawl i'r adnoddau, pan mae'n debygol (yn fwy tebygol na pheidio) y bydd yr adnoddau'n cael eu derbyn a phan ellir mesur gwerth ariannol adnoddau sy'n dod i mewn gyda digon o ddibynadwyedd.

Os oes telerau neu amodau ynghlwm wrth adnoddau sy'n dod i mewn, yn enwedig grantiau, yna rhaid bodloni'r telerau neu amodau hyn cyn i'r incwm gael ei gydnabod gan na fydd amod yr hawl yn cael ei fodloni tan y pwynt hwnnw. Lle nad yw telerau neu amodau wedi'u bodloni neu os oes ansicrwydd ynghylch a ellir eu bodloni, ni chydnabyddir yr incwm perthnasol yn ystod y flwyddyn - caiff ei ohirio a'i ddangos ar y fantolen.

## ch) Adnoddau incwm o gymynroddion

Cyfrifir cymynroddion fel adnoddau sy'n dod i mewn naill ai wrth eu derbyn neu lle mae'n debygol y derbynnir y cymynrodd.

Mae'n debygol y cânt eu derbyn pan:

- Gafwyd cadarnhad gan gynrychiolwyr yr ystâd(au) bod profiant wedi'i roi
- Mae'r ysgutorion wedi sefydlu bod digon o asedau yn yr ystâd i dalu'r cymynrodd ac
- Mae'r holl amodau sy'n gysylltiedig â'r cymynrodd wedi'u cyflawni neu o fewn rheolaeth yr Elusen.

Os oes ansicrwydd ynghylch swm y cymynrodd ac na ellir ei amcangyfrif yn ddibynadwy, dangosir y cymynrodd fel ased amodol hyd nes y bodlonir yr holl amodau ar gyfer cynhyrchu incwm.

## d) Adnoddau incwm o gronfeydd gwaddol

Mae'r adnoddau sy'n dod i mewn o'r gronfa waddol a fuddsoddwyd yn gwbl gyfyngedig.

## dd) Adnoddau a wariwyd a TAW anadenilladwy

Rhoddir cyfrif am yr holl wariant ar sail gronnol ac fe'i dosbarthwyd o dan benawdau sy'n cyfuno'r holl gostau sy'n gysylltiedig â phob categori o gost a ddangosir yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol. Cydnabyddir gwariant pan fydd y meini prawf canlynol yn cael eu bodloni:

- Mae rhwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol bresennol yn deillio o ddigwyddiad yn y gorffennol
- Mae'n fwy tebygol na pheidio y bydd angen trosglwyddo buddiannau (taliad arian parod fel arfer) mewn setliad
- Gellir mesur neu amcangyfrif swm y rhwymedigaeth yn ddibynadwy. Codir TAW anadenilladwy yn erbyn y categori perthnasol o adnoddau a wariwyd.

Mae rhwymedigaeth adeiladol yn codi pan:

- Rydym wedi cyfleu ein bwriad i ddyfarnu grant i dderbynnydd sydd wedyn â disgwyliad rhesymol y bydd yn derbyn grant
- Rydym wedi gwneud cyhoeddiad cyhoeddus am ymrwymiad sy'n ddigon penodol i'r derbynnydd fod â disgwyliad rhesymol y bydd yn derbyn grant
- Mae patrwm ymarfer sefydledig sy'n dangos i'r derbynnydd y byddwn yn anrhydeddu ein hymrwymiad.

Mae gan yr Ymddiriedolwyr reolaeth dros swm ac amseriad taliadau grant ac, o ganlyniad, lle mae'r ymddiriedolwyr wedi rhoi cymeradwyaeth a bod unrhyw un o'r meini prawf uchod wedi'u bodloni, cydnabyddir y rhwymedigaeth. Fel arfer, ni ddyfernir grantiau gydag amodau ynghlwm. Fodd bynnag, pan gânt eu dyfarnu, rhaid bodloni'r amodau hynny cyn cydnabod y rhwymedigaeth.
Lle nad oes bwriad wedi'i gyfleu, ni chydnabyddir unrhyw wariant ond gwneir dynodiad priodol yn y gronfa briodol. Os yw grant wedi'i gynnig ond bod ansicrwydd a fydd yn cael ei dderbyn neu a fydd amodau'n cael eu bodloni, ni chydnabyddir unrhyw atebolrwydd ond datgelir rhwymedigaeth amodol.

**e) Dyrannu costau cymorth**

Costau cymorth yw'r costau hynny nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol ag un gweithgaredd. Mae'r rhain yn cynnwys costau staff, costau gweinyddu, costau archwilio mewnol ac allanol. Dosrennir costau cymorth ar sail balans cyfartalog y gronfa.

**f) Costau codi arian**

Costau cynhyrchu arian yw'r costau hynny y gellir eu priodoli i gynhyrchu incwm i'r elusen, ac eithrio'r costau hynny yr eir iddynt wrth ymgymryd â gweithgareddau elusennol neu'r costau a ysgwyddir wrth ymgymryd â gweithgareddau masnachu i hyrwyddo nodau'r elusen. Mae costau cynhyrchu arian yn cynrychioli costau codi arian ynghyd â ffioedd rheoli buddsoddi. Mae costau codi arian yn cynnwys treuliau ar gyfer gweithgareddau codi arian a ffi a delir i barti cysylltiedig, y Bwrdd Iechyd, o dan gytundeb codi arian. Defnyddir y ffi i dalu cyflogau a chostau cyffredinol swyddfa codi arian y Bwrdd Iechyd.

**ff) Gweithgareddau Elusennol**

Costau gweithgareddau elusennol yw'r holl gostau a ysgwyddir wrth geisio cyflawni nodau elusennol yr elusen. Dosrennir y costau hyn, lle na ellir eu priodoli'n llwyr, rhwng y categorïau o wariant elusennol yn ogystal â'r costau uniongyrchol. Mae cyfanswm costau pob categori o wariant elusennol yn cynnwys dosraniad costau cymorth fel y dangosir yn nodyn 8.

**g) Dyledwyr**

Mae dyledwyr yn symiau sy'n ddyledus i'r elusen. Cânt eu mesur ar sail eu swm adenilladwy.

### ng) Arian parod a chywerthoedd arian parod

Cynhelir arian parod yn y banc ac mewn llaw i dalu costau rhedeg yr elusen o ddydd i ddydd, wrth iddynt ddod yn ddyledus. Buddsoddiadau tymor byr, hylifol iawn yw cywerthoedd arian parod, fel arfer mewn cyfrifon cynilo llog sydd â rhybudd 90 diwrnod.

### h) Credydwyr

Mae credydwyr yn symiau sy'n ddyledus gan yr elusen. Cânt eu mesur ar y swm y mae'r elusen yn disgwyl gorfod ei dalu i setlo'r ddyled. Dangosir symiau sy'n ddyledus mewn mwy na blwyddyn fel credydwyr hirdymor.

### i) Enillion a cholledion a wireddwyd

Eir â'r holl enillion a cholledion i'r Datganiad o Weithgareddau Ariannol wrth iddynt godi. Cyfrifir enillion a cholledion a wireddwyd ar fuddsoddiadau fel y gwahaniaeth rhwng enillion gwerthiannau a'r gwerth cario agoriadol (dyddiad prynu os yn ddiweddarach).

Cyfrifir enillion a cholledion nas gwireddwyd fel y gwahaniaeth rhwng y pris cynnig ar ddiwedd y flwyddyn a'r gwerth cynnig agoriadol (neu ddyddiad prynu os yn ddiweddarach).

### j) Asedau Sefydlog

Nodir buddsoddiadau ar werth y farchnad ar ddyddiad y fantolen. Mae'r Datganiad o Weithgareddau Ariannol yn cynnwys yr enillion a'r colledion net sy'n deillio o ailbrisio a gwaredu drwy gydol y flwyddyn. Caiff asedau sefydlog diriaethol eu prisio fel a ganlyn:

i) Ailbrisiwyd y tir a'r adeiladau mewn perthynas ag Ysbyty Rookwood fel yr oedd ar 1af Ebrill 2022, ac roedd yr ailbrisio'n adlewyrchu'r cyfyngiad ar ddefnydd ysbyty yn unig. Lle y bo'n briodol rhwng prisiadau, cymhwysir mynegai priodol, a gyflenwir gan Lywodraeth Cymru, i ailbrisio'r ased.
ii) Caiff asedau yn ystod gwaith adeiladu eu prisio ar gost gyfredol.
iii) Y trothwy cyfalafu yw £5,000
iv) Cofnodir symudiadau mewn ailbrisio yn y gronfa ailbrisio wrth gefn ar y fantolen
v) Polisi'r elusen yw rhoi asedau a brynwyd i Fwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro

Cynhelir prisiadau proffesiynol gan y Gwasanaeth Prisiwr Dosbarth bob pum mlynedd, sydd (fel cangen fasnachol Asiantaeth y Swyddfa Brisio) yn rhan o Gyllid a Thollau Ei Fawrhydi. Cynhelir y prisiadau yn unol â Llawlyfr Gwerthuso a Phrisio Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS) i'r graddau y mae'r telerau hyn yn gyson â gofynion cytûn Llywodraeth Cymru a Thrysorlys EF. Sail prisiad y Prisiwr yw'r Gwerth Defnydd sy'n Bodoli (EUV), ac ar y sail hon y mae gwerth Rookwood wedi'i brisio. Cydnabyddir symudiadau mewn ailbrisio yn y Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn.

# Dibrisiant

i) Codir dibrisiant ar bob prif ddosbarth o ased diriaethol fel a ganlyn: nid yw tir ac asedau a ddefnyddir wrth adeiladu yn cael eu dibrisio. Caiff adeiladau, gosodiadau a ffitiadau eu dibrisio ar eu swm ailbrisiedig dros weddill oes asesedig yr ased fel y cynghorir gan y priswyr proffesiynol;

ii) Nodir amhariadau, lle yr eir iddynt yn ystod y flwyddyn, ar wahân yn nodyn 13 ac fe'u codir ar gronfeydd yr elusen lle y'u hachosir gan amrywiadau mewn prisiau ac i'r Datganiad o Weithgareddau Ariannol am y flwyddyn pan gafodd yr amhariad ei gydnabod.

iii) Mae oes economaidd ddefnyddiol adeiladau Elusen wedi cael ei phennu fesul ased gan y Prisiwr Dosbarth.

Caiff yr oesau hyn eu hadolygu'n flynyddol gan yr Elusen i bennu eu priodoldeb ac fe'u hadolygir bob pum mlynedd gan y Prisiwr Dosbarth. Caiff Asedau a Roddwyd eu cyfalafu wrth eu prisio ar sail cost adnewyddu lawn wrth eu derbyn a chânt eu hailbrisio a'u dibrisio fel y disgrifir uchod.

# 2. Ailddatgan y Flwyddyn Flaenorol

Er mwyn datgan yn gywir ailddosbarthiad incwm grant yr Elusen yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol a Nodyn 4 ar 31 Mawrth 2023, mae'r datgeliadau canlynol wedi'u hailddatgan Cafodd rhoddion a chymynroddion eu gostwng o £0.871 miliwn i £0.828 miliwn a chrëwyd llinell newydd i ddatgan Incwm Grant o £0.871 miliwn.

Nodyn 14 Buddsoddiadau Asedau Sefydlog

Mae'r gwerth agoriadol ar y farchnad wedi'i ailddatgan i adlewyrchu'r gofyniad Datganiad o'r Arfer a Argymhellir i gofnodi pris cynnig y prisiad buddsoddi. Roedd yr addasiad yn (£0.003 miliwn) ac mae'n cael ei adlewyrchu yn nodyn 14.

# 3. Trafodion partïon cysylltiedig

Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro yw Ymddiriedolwr Corfforaethol yr Elusen. Yn ystod y flwyddyn, ac eithrio'r hyn a nodir isod, nid oes unrhyw drafodion partïon cysylltiedig perthnasol eraill sy'n cynnwys yr Ymddiriedolwr Corfforaethol, aelodau'r bwrdd nac uwch staff rheoli allweddol.

Mae Aelodau'r Bwrdd (ac uwch staff eraill) yn gwneud penderfyniadau ar faterion Elusennol a Thrysorlys ond yn ymdrechu i gadw buddiannau pob un ar wahân ac nid ydynt yn elwa'n bersonol o benderfyniadau o'r fath. Mae datganiadau o fuddiant personol wedi'u gwneud ac maent ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd.

Mae gan y Bwrdd Iechyd Lleol gysylltiadau agos â Phrifysgol Caerdydd sy'n cynnwys rhannu staff yn ogystal â rhannu llety ar Safle Ysbyty Athrofaol Cymru.

**Mae'r tabl isod yn ymwneud â thrafodion ariannol partïon cysylltiedig ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/2024**

| Parti Cysylltiedig | Incwm sy'n gysylltiedig â pharti 2023/24 £000 | Gwariant sy'n gysylltiedig â pharti 2023/24 £000 | Symiau dyledus i barti cysylltiedig 2023/24 £000 | Symiau dyledus gan barti cysylltiedig 2023/24 £000 |
|---|---|---|---|---|
| Cyngor Caerdydd | 14 | 2 | 2 | 6 |
| Llywodraeth Cymru | 50 | 2 | 0 | 0 |
| Prifysgol De Cymru | 3 | 11 | 2 | 3 |
| Prifysgol Metropolitan Caerdydd | 0 | 1 | 0 | 0 |
| Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg | 2 | 0 | 0 | 0 |
| Bro Morgannwg | 1 | 0 | 0 | 0 |
| Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro | 30 | 1,513 | 806 | 25 |
| Prifysgol Caerdydd | 1 | 54 | 15 | 1 |
| | 101 | 1,583 | 825 | 35 |

Mae'r tabl isod yn cynnwys enwau aelodau unigol y bwrdd a'r berthynas â'r parti cysylltiedig

| Aelod o'r Bwrdd | Perthynas â'r Parti Cysylltiedig |
|---|---|
| Claire Beynon | Fe'i penodwyd yn Gyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar 30 Rhagfyr 2023. Mae hi hefyd yn dysgu ar sail ad hoc ym Mhrifysgol Caerdydd, Prifysgol Metropolitan Caerdydd a Phrifysgol Abertawe, Prifysgol De Cymru a'r gyfadran Iechyd y Cyhoedd. Mae ei gŵr yn ddarlithydd ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd. |
| Suzanne Rankin | Prif Swyddog Gweithredol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Hi yw Cyfarwyddwr Canolfan Arloesi ym Maes Gwella Clwyfau Cymru ac mae'n Aelod Lleyg (GIG) o Gyngor Prifysgol Caerdydd. Mae hi hefyd yn Is-gadeirydd ar Bwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys (PGAB) |
| Susan Elsmore | Aelod Annibynnol (Awdurdod Lleol) Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro hyd at 31 Hydref 2023. Aelod o Gyngor Caerdydd dros Ward Treganna. Mae hi hefyd yn aelod cabinet Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Cadeirydd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro. Aelod a llefarydd Cyngor Caerdydd dros Ofal Cymdeithasol, Iechyd a Lles |
| Ceri Phillips | Is-gadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Mae hefyd yn Athro Emeritws ym Mhrifysgol Abertawe ac yn Athro Anrhydedd ym Mhrifysgol Caerdydd |
| Lani Tucker | Cafodd ei phenodi ar 17/01/2024 yn Aelod o Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ac mae'n gadeirydd y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid. Hi hefyd yw'r hwylusydd Iechyd a Gofal Cymdeithasol |
| Susan Lloyd-Selby | Wedi'i phenodi ar 01/03/2024, mae'n Aelod Annibynnol (Awdurdod Lleol) o Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Hi yw Cadeirydd Ymddiriedolwyr Elusen Coastlands CIO ac mae'n Aelod Etholedig o Gyngor Bro Morgannwg. |

**Isod ceir manylion y ffigurau cymharol ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2022/2023**

| Parti Cysylltiedig | Incwm sy'n gysylltiedig â pharti 2022/23 £000 | Gwariant sy'n gysylltiedig â pharti 2022/23 £000 | Symiau dyledus i barti cysylltiedig 2022/23 £000 | Symiau dyledus gan barti cysylltiedig 2022/23 £000 |
|---|---|---|---|---|
| Cyngor Caerdydd | 97 | 9 | 0 | 97 |
| Llywodraeth Cymru | 26 | 0 | 0 | 0 |
| Prifysgol De Cymru | 0 | 4 | 0 | 1 |
| Prifysgol Abertawe | 0 | 3 | 0 | 0 |
| Prifysgol Metropolitan Caerdydd | 0 | 2 | 0 | 0 |
| Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro | 23 | 1084 | 352 | 23 |
| Prifysgol Caerdydd | 0 | 25 | 1 | 0 |

**Cyfrifon Elusennau Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro 2023 / 2024**

**4.Incwm o rhoddion ac etifeddiaethau**

| | Cronfeydd anghyfyngedig £000 | Cronfeydd Incwm cyfyngedig £000 | Cronfeydd gwaddol £000 | Cyfanswm 2023-24 £000 | Cyfanswm 2022-23 Wedi'i ailddatgan £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Rhoddion | 253 | 67 | 0 | 320 | 405 |
| Cymynroddion | 2 | 204 | 0 | 206 | 423 |
| Grantiau | 0 | 454 | 0 | 454 | 871 |
| | 255 | 725 | 0 | 980 | 1,699 |

**5.Gweithgareddau masnachu eraill**

| | Cronfeydd anghyfyngedig £000 | Cronfeydd Incwm cyfyngedig £000 | Cronfeydd gwaddol £000 | Cyfanswm 2023-24 £000 | Cyfanswm 2022-23 £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Loteri Staff | 0 | 305 | 0 | 305 | 283 |
| Gweithgareddau eraill | 9 | 81 | 0 | 90 | 80 |
| | 9 | 386 | 0 | 395 | 363 |

**6.Incwm buddsoddi gros**

| | Cronfeydd anghyfyngedig £000 | Cronfeydd Incwm cyfyngedig £000 | Cronfeydd gwaddol £000 | Cyfanswm 2023-24 £000 | Cyfanswm 2022-23 £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Ecwiti asedau sefydlog a buddsoddiadau tebyg | 92 | 61 | 1 | 154 | 141 |
| Buddsoddiadau Byrdymor | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Blaendaliadau ac arian parod ar adnau | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | 92 | 61 | 1 | 154 | 141 |

**7. Dadansoddiad o wariant ar godi arian**

| | Cronfeydd anghyfyngedig £000 | Cronfeydd Incwm cyfyngedig £000 | Cronfeydd gwaddol £000 | Cyfanswm 2023-24 £000 | Cyfanswm 2022-23 £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Swyddfa codi arian | 364 | 0 | 0 | 364 | 347 |
| Digwyddiadau codi arian | 0 | 83 | 0 | 83 | 80 |
| Ffioedd rheoli buddsoddiadau | 17 | 11 | 0 | 28 | 28 |
| | 381 | 94 | 0 | 475 | 455 |

**8. Dadansoddiad o weithgarwch elusennol**

| | Gweithgareddau a gymerwyd £000 | Costau cynnal £000 | Cyfanswm 2023-24 £000 | Cyfanswm 2022-23 £000 |
|---|---|---|---|---|
| Addysg a lles cleifion | 1,665 | 97 | 1,762 | 1,575 |
| Addysg a lles staff | 270 | 17 | 287 | 356 |
| Ymchwil | 39 | 2 | 41 | 14 |
| Arall | 2 | 7 | 9 | 16 |
| Dibrisiant | 24 | 0 | 24 | 23 |
| | 2,000 | 123 | 2,123 | 1,984 |

**9. Grantiau**

Yn ystod 2023/24 ni chymeradwywyd unrhyw grantiau gan y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol.
Yn ystod 2022/23 cymeradwywyd £0.033 miliwn gan y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol ond ni ddefnyddiwyd y grant yn llawn a dychwelwyd £1,745 yn 2023/2024

Mae'r tabl isod yn rhoi manylion y taliadau grant

| Sefydliad | 2023-24 £000 | 2022-23 £000 |
|---|---|---|
| GWASANAETHAU GWIRFODDOL MORGANNWG | (2) | 33 |
| **Cyfanswm** | **(2)** | **33** |

**Cyfrifon Elusennau Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro 2023 / 2024**

**10. Dyrannu costau cymorth**

| | Codi arian £000 | Gweithgareddau elusennol £000 | Cyfanswm 2023-24 £000 | Cyfanswm 2022-23 £000 |
|---|---|---|---|---|
| Llywodraethiant | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Archwilio Cymru | 0 | 25 | 25 | 40 |
| Archwilio Mewnol | 0 | 0 | 0 | 20 |
| Ffioedd Rheoli Buddsoddiadau | 28 | 0 | 28 | 28 |
| Cyfanswm Llywodraethiant | 28 | 25 | 53 | 88 |
| Cyllid a Gweinyddu | 0 | 95 | 95 | 95 |
| | 28 | 120 | 148 | 183 |

Mae cyllid a gweinyddu yn ymwneud â pharti cysylltiedig (Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro) a chostau staff yn benodol.

| | Cronfeydd anghyfyngedig £000 | Cronfeydd Incwm cyfyngedig £000 | Cronfeydd gwaddol £000 | Cyfanswm cronfeydd 2023-24 £000 |
|---|---|---|---|---|
| Codi arian | 17 | 11 | 0 | 28 |
| Gweithgareddau elusennol | 71 | 48 | 1 | 120 |
| | 88 | 59 | 1 | 148 |

**11. Taliadau cydnabyddiaeth, buddion a threuliau'r Ymddiriedolwyr**

Nid yw'r Elusen yn gwneud unrhyw daliadau am dâl nac yn ad-dalu treuliau i Ymddiriedolwyr yr Elusen am eu gwaith fel Ymddiriedolwr

**12.Taliadau cydnabyddiaeth yr archwilydd**

Tâl yr archwilydd allanol ar gyfer 2023/2024 yw £25,306 (2022/2023 £23,785 gwreiddiol). Mae'r ffioedd yn ymwneud ag adroddiad blynyddol statudol a chyfrifon yn unig.

**13. Asedau sefydlog diriaethol**

| | Tir ac adeiladau rhydd-ddaliadol 2023-24 £000 | Tir ac adeiladau rhydd-ddaliadol 2022-23 £000 |
|---|---|---|
| **Cost neu brisiad** | | |
| Balans agoriadol | 4,311 | 2,584 |
| Ychwanegiadau | 0 | 0 |
| Ailbrisiadau | 0 | 1,816 |
| Mynegeio | (82) | (89) |
| Gwarediadau | 0 | 0 |
| Amhariadau | 0 | 0 |
| Y balans cloi | 4,229 | 4,311 |
| **Dibrisiant cronedig** | | |
| Balans agoriadol | 23 | 105 |
| Gwarediadau | 0 | 0 |
| Ailbrisiadau | 0 | (105) |
| Amhariadau | 0 | 0 |
| Tâl am y flwyddyn | 24 | 23 |
| Y balans cloi | 47 | 23 |
| GAN Agoriadol | 4,288 | 2,479 |
| GAN Cloi | 4,182 | 4,288 |

***Ysbyty Rookwood yw'r unig Ased Sefydlog diriaethol a gydnabyddir yn "Tir ac Adeiladau Rhydd-ddaliadol".***

### 15.Dadansoddiad o ddyledwyr

| 15. Dyledwyr | Cyfanswm 31 Mawrth 2024 £000 | Cyfanswm 31 Mawrth 2023 £000 |
|---|---|---|
| Dyledwyr eraill | 12 | 113 |
| Rhagdaliadau hirdymor > blwyddyn | 11 | 12 |
| Rhagdaliadau byrdymor < blwyddyn | 72 | 58 |
| Incwm Cronnus | 55 | 331 |
| Cyfanswm dyledwyr | 150 | 514 |

### 16. Arian parod yn y banc ac mewn llaw

| | 31 Mawrth 2024 £000 | 31 Mawrth 2023 £000 |
|---|---|---|
| Arian parod yn y banc | 226 | 560 |
| | 226 | 560 |

### 17. Dadansoddiad o rwymedigaethau

| | Cyfanswm 31 Mawrth 2024 £000 | Cyfanswm 31 Mawrth 2023 £000 |
|---|---|---|
| **Credydwyr o dan 1 flwyddyn** | | |
| Credydwyr eraill | 962 | 624 |
| Croniadau | 30 | 25 |
| Cyfanswm credydwyr | 992 | 649 |

## Cyfrifon Elusennau Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro 2023 / 2024

### 15.Dadansoddiad o ddyledwyr

| 15. Dyledwyr | Cyfanswm 31 Mawrth 2024 £000 | Cyfanswm 31 Mawrth 2023 £000 |
|---|---|---|
| Dyledwyr eraill | 12 | 113 |
| Rhagdaliadau hirdymor > blwyddyn | 11 | 12 |
| Rhagdaliadau byrdymor < blwyddyn | 72 | 58 |
| Incwm Cronnus | 55 | 331 |
| Cyfanswm dyledwyr | 150 | 514 |

### 16. Arian parod yn y banc ac mewn llaw

| | 31 Mawrth 2024 £000 | 31 Mawrth 2023 £000 |
|---|---|---|
| Arian parod yn y banc | 226 | 560 |
| | 226 | 560 |

### 17. Dadansoddiad o rwymedigaethau

| | Cyfanswm 31 Mawrth 2024 £000 | Cyfanswm 31 Mawrth 2023 £000 |
|---|---|---|
| **Credydwyr o dan 1 flwyddyn** | | |
| Credydwyr eraill | 962 | 624 |
| Croniadau | 30 | 25 |
| Cyfanswm credydwyr | 992 | 649 |

## Cyfrifon Elusennau Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro 2023 / 2024

**18. Cysoni incwm / gwariant net â llif arian parod net o weithgareddau gweithredol**

| | Cyfanswm 2023-24 £000 | Cyfanswm 2022-23 £000 |
|---|---|---|
| Incwm net / (gwariant) (fesul Datganiad o Weithgareddau Ariannol) | (823) | (561) |
| Addasiad ar gyfer: | | |
| Taliadau dibrisiant | 24 | 23 |
| (Enillion) / colledion ar fuddsoddiadau | (243) | 325 |
| Difidendau, llog a rhenti o fuddsoddiadau | (154) | (141) |
| (Cynnydd) / gostyngiad mewn dyledwyr | 365 | (369) |
| (Cynnydd) / gostyngiad mewn credydwyr | 343 | 237 |
| Arian parod net yn deillio o (defnyddiwyd mewn) gweithgareddau gweithredol | (488) | (486) |

**19. Rôl Gwirfoddolwyr**

Mae Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro yn parhau i fod yn hynod ddiolchgar i'r holl wirfoddolwyr sy'n cefnogi gweithgareddau codi arian gyda chymaint o egni, angerdd a sgil. Ni allai'r Elusen gyflawni ei holl amcanion heb ymrwymiad parhaus y gwirfoddolwyr i wneud cymaint o wahaniaeth i gleifion, eu teuluoedd a chydweithwyr.

Mae'r Elusen wedi dechrau gweithio'n agosach gyda gwirfoddolwyr y Bwrdd Iechyd er mwyn datblygu a chynnal rolau Hyrwyddwr Elusen mwy penodol, gan gynnwys cefnogi ein rhedwyr mewn digwyddiadau sydd wedi'u trefnu a goruchwylio'r tuniau casglu elusennol. Yn unol â'r Datganiad o Arfer a Argymhellir, oherwydd absenoldeb unrhyw sail mesur ddibynadwy, ni chydnabyddir cyfraniad y gwirfoddolwyr hyn yn y cyfrifon.

**Cyfrifon Elusennau Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro 2023 / 2024**

**20.Dadansoddiad o'r Cronfeydd**

**a. Dadansoddiad o gronfeydd gwaddol**

| | | Balans 31 Mawrth 2023 £000 | Incwm £000 | Gwariant £000 | Trosglwyddiadau £000 | Enillion a colledion £000 | Balans 31 Mawrth 2024 £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Catherine Jenkins | 40 | 1 | (1) | 0 | 0 | 40 |
| | | 40 | 1 | (1) | 0 | 0 | 40 |

**b.Dadansoddiad o symudiadau cronfa cyfyngedig mwyaf arwyddocaol**

| | | Balans 31 Mawrth 2023 £000 | Incwm £000 | Gwariant £000 | Trosglwyddiadau £000 | Enillion a colledion £000 | Balans 31 Mawrth 2024 £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 9447 | Cronfa Apêl Bywyd Gwell Ffibrosis Systig | 344 | 20 | (72) | 0 | 0 | 292 |
| 9479 | Gwaddol Phillips - Ymchwil Asthma | 208 | 5 | (7) | 0 | 0 | 206 |
| 9149 | Uned Gofal y Fron - Dibenion Cyffredinol | 199 | 115 | (127) | 0 | 0 | 187 |
| 9478 | Gwaddol May - Ymchwil Asthma | 132 | 3 | (5) | 0 | 0 | 130 |
| 9639 | Apêl Telemetreg i Blant (Dibenion Cyffredinol) | 94 | 2 | (2) | 0 | 0 | 94 |
| 9678 | Loteri Staff | 110 | 308 | (267) | 0 | 0 | 151 |
| 9692 | Clinig Asthma Gwaddol Drew-Smith | 0 | 115 | (1) | 0 | 0 | 114 |
| 9690 | Gwaddol Gould (Uned Mêr Esgyrn) | 91 | 2 | (2) | 0 | 0 | 91 |
| 9699 | Gwaddol Ponting - Swyddogaeth yr Ysgyfaint | 156 | 4 | (4) | 0 | 0 | 156 |
| | Arall | 1,125 | 598 | (949) | 0 | 0 | 774 |
| | | 2,459 | 1,172 | (1,436) | 0 | 0 | 2,195 |

**c. Dadansoddiad o symudiadau cronfa ddynodedig anghyfyngedig mwyaf arwyddocaol**

| | | Balans 31 Mawrth 2023 £000 | Incwm £000 | Gwariant £000 | Trosglwyddiadau £000 | Enillion a colledion £000 | Balans 31 Mawrth 2024 £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Cronfeydd Anghyfyngedig** | | | | | | |
| 9809 | Anghyfyngedig Heb eu Dirprwyo | (498) | 2 | (355) | 0 | 246 | (605) |
| | | (498) | 2 | **(355)** | 0 | 246 | (605) |
| | **Cronfeydd Dynodedig** | | | | | | |
| 9649 | Rhodd Covid Bale | 197 | 4 | (130) | 0 | 0 | 71 |
| 9644 | Gwaddol Hughes (Cardioleg) | 264 | 6 | (11) | (26) | 0 | 233 |
| 9600 | Nyrsys Ysbyty Athrofaol Cymru | 337 | 21 | (23) | 0 | 0 | 335 |
| 9524 | Lewcemia a Lymffoma | 141 | 4 | (3) | 0 | 0 | 142 |
| 9494 | Ymchwil Gardiaidd Gwaddol Biggs | 103 | 3 | 6 | 0 | 0 | 112 |
| 9679 | Ward Canser Plant yn eu Harddegau Caerdydd a’r Fro | 69 | 10 | (10) | 0 | 0 | 69 |
| 9541 | Gwasanaethau Cyffredinol Cardiaidd | 186 | 7 | (30) | 0 | 0 | 163 |
| 9420 | Uned Ddydd Hematoleg | 78 | 3 | (17) | 0 | 0 | 64 |
| 9231 | Rhodd Gofal Dwys (YAC) (6445) | 71 | 39 | (8) | 0 | 0 | 102 |
| | Arall | 2,524 | 257 | (556) | 26 | 0 | 2,251 |
| | | 3,970 | 354 | (782) | 0 | 0 | 3,542 |
| | Cyfanswm | 3,472 | 356 | (1,137) | 0 | 246 | 2,937 |

**d. Cronfa Ailbrisio Wrth Gefn**

| | Balans 31 Mawrth 2023 £000 | Incwm £000 | Gwariant (Dibrisiant) £000 | Trosglwyddiadau £000 | Enillion a colledion £000 | Balans 31 Mawrth 2024 £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Rookwood | 4,288 | 0 | (24) | 0 | (82) | 4,182 |
| | 4,288 | 0 | (24) | 0 | (82) | 4,182 |

## Cyfrifon Elusennau Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro 2023 / 2024

**Nodiadau Ychwanegol**

**21. Ymrwymiadau**

| | 2023/24 |
|---|---|
| | £000 |
| **Mae gan y cronfeydd yr ymrwymiadau canlynol:** | |
| Prosiectau elusennol | 94 |
| Cyfanswm | 110 |

| **Enw'r ymrwymiad** | **£000** |
|---|---|
| Atebion Trafnidiaeth BIP (CT/19/03/007) (1-4 blynedd) | 1 |
| Tîm Trawsblaniadau Cymru (CFC 21/12/011) (1-5 mlynedd) | 24 |
| Costau Cynnal a Chadw Gerddi Niwrolegol (BT 20/07/013) (10 mlynedd) | 85 |
| | 110 |

| | 2022/23 |
|---|---|
| | £000 |
| **Mae gan y cronfeydd yr ymrwymiadau canlynol:** | |
| Prosiectau elusennol | 295 |
| **Cyfanswm** | **319** |

| **Enw'r ymrwymiad** | **£000** |
|---|---|
| Costau Cynnal a Chadw Gerddi Niwrolegol (BT 20/07/013) (10 mlynedd) | 94 |
| Gwobrau Cydnabod Staff (CDdB 18/052) (4 blynedd) | 5 |
| Gwaredu Rookwood (CTM 19/06/009) (1-4 blynedd) | 155 |
| Atebion Trafnidiaeth BIP (CT/19/03/007) (1-4 blynedd) | 32 |
| Forget Me Not Chorus (CFC 22/03/010) (1 flwyddyn) | 1 |
| Tîm Trawsblaniadau Cymru (CFC 21/12/011) (1-5 mlynedd) | 32 |
| | 319 |

## Cyfrifon Elusennau Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro 2023 / 2024

**22. Asedau a Roddwyd**

Yn ystod y flwyddyn prynodd yr Elusen asedau gwerth £0.147 miliwn (2022/23 £0.092 miliwn). Mae'r rhain wedi'u cynnwys yn Natganiad Gweithgareddau Ariannol yr Elusen ac fe'u dosberthir fel Asedau a Roddwyd yn Natganiadau Ariannol y BILl

**23.Digwyddiadau ar ôl y Fantolen**

Mae'n ofynnol i'r datganiadau ariannol adlewyrchu'r amodau sy'n gymwys ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Felly ni wneir unrhyw addasiadau yn sgil unrhyw newidiadau yng ngwerth teg buddsoddiadau rhwng 31 Mawrth 2024 a dyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol. Mae gwerth teg y buddsoddiadau a ddelir gan yr Elusen ar 31 Mawrth 2024 wedi newid yn y cyfamser fel a ganlyn:

| | 31 Mawrth 2024<br>£000 | 21 Ionawr 2025<br>£000 |
|---|---|---|
| Buddsoddi | 5,789 | 5,527 |

# Cyfrifon Elusennau Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro 2023/24

## DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R YMDDIRIEDOLWYR MEWN PERTHYNAS Â'R CYFRIFON

i) Codir dibrisiant ar bob prif ddosbarth o ased diriaethol fel a ganlyn: nid yw tir ac asedau a ddefnyddir wrth adeiladu yn cael eu dibrisio. Caiff adeiladau, gosodiadau a ffitiadau eu dibrisio ar eu swm ailbrisiedig dros weddill oes asesedig yr ased fel y cynghorir gan y priswyr proffesiynol;

ii) Nodir amhariadau, lle yr eir iddynt yn ystod y flwyddyn, ar wahân yn nodyn 13 ac fe'u codir ar gronfeydd yr elusen lle y'u hachosir gan amrywiadau mewn prisiau ac i'r Datganiad o Weithgareddau Ariannol am y flwyddyn pan gafodd yr amhariad ei gydnabod.

iii) Mae oes economaidd ddefnyddiol adeiladau Elusen wedi cael ei phennu fesul ased gan y Prisiwr Dosbarth. Caiff yr oesau hyn eu hadolygu'n flynyddol gan yr Elusen i bennu eu priodoldeb ac fe'u hadolygir bob pum mlynedd gan y Prisiwr Dosbarth.

Mae'n ofynnol i'r ymddiriedolwr baratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol sy'n rhoi darlun cywir a theg o weithgareddau ariannol yr elusen yn ystod y flwyddyn a'i sefyllfa ariannol ar ddiwedd y flwyddyn.  Wrth baratoi datganiadau ariannol sy'n rhoi darlun cywir a theg, dylai'r ymddiriedolwr ddilyn arfer gorau a:

- dewis polisïau cyfrifyddu addas a'u gweithredu'n gyson;
- barnu a gwerthuso p'un a ydynt yn rhesymol a darbodus;
- datgan p'un a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys a datganiadau o'r arfer a argymhellir, yn amodol ar unrhyw wyriadau a ddatgelwyd ac a esboniwyd yn y datganiadau ariannol; a
- pharatoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes hyfyw oni bai ei bod yn amhriodol tybio y bydd yr elusen yn parhau i weithredu.

Mae'r ymddiriedolwr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifeg sy'n datgelu sefyllfa ariannol yr elusen yn rhesymol gywir ac sy'n eu galluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â Deddf Elusennau 2011, rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) a darpariaethau'r weithred ymddiriedolaeth.  Mae'r ymddiriedolwr yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r elusen ac felly am gymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac afreoleidd-dra arall.

Mae'r ymddiriedolwr yn cadarnhau ei fod wedi cydymffurfio â'r gofynion uchod wrth baratoi'r cyfrifon.

Ar orchymyn yr ymddiriedolwr

Ymddiriedolwr Mr Charles Janczewski
Dyddiad 23 Ionawr 2025

# Cyfrifon Elusennau Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro 2023/2024

Fel Ymddiriedolwr Ariannol i'r arian a ddelir ar ymddiriedolaeth, rwy'n gyfrifol am:

- gynnal cofnodion ariannol sy'n briodol i weithgareddau'r gronfa/cronfeydd.
- sefydlu a monitro system o reolaeth fewnol.
- sefydlu trefniadau atal twyll a llygredd.
- paratoi datganiadau ariannol blynyddol sy'n rhoi darlun cywir a theg o'r arian a ddelir ar ymddiriedolaeth a chanlyniadau eu gweithrediadau.

Ar ran yr Ymddiriedolwr Ariannol
Charles Janczewski – Cadeirydd –
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

# The independent auditor's report of the Auditor General for Wales to the trustee of Cardiff and Vale University Local Health Board Charity

**Barn ar ddatganiadau ariannol**

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol Elusen Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024 o dan Ddeddf Elusennau 2011.
Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys y Datganiad o Weithgareddau Ariannol, y Fantolen, y Datganiad Llifoedd Arian Parod a nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu arwyddocaol.

Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth baratoi yw'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig, gan gynnwys Safon Adrodd Ariannol 102, y Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (Arferion Cyfrifyddu sy'n Gyffredinol Dderbyniol y Deyrnas Unedig).

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r elusen ar 31 Mawrth 2024 ac o'i hadnoddau sy'n dod i mewn a'r defnydd o adnoddau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi eu paratoi yn unol ag Arferion Cyfrifyddu sy'n Gyffredinol Dderbyniol y Deyrnas Unedig; ac
- wedi'u paratoi yn unol â Deddf Elusennau 2011.

**Sail ar gyfer barn**

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â chyfraith gymwys a Safonau Archwilio Rhyngwladol yn y DU (SARhau [DU]) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Endidau'r Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'.  Caiff fy nghyfrifoldebau dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yn yr adran cyfrifoldebau'r archwilydd wrth archwilio'r adran datganiadau ariannol o'm hadroddiad.

Rwyf i a'm staff yn annibynnol ar yr elusen yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm gwaith archwilio'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safonau Moesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio sydd wedi dod i law yn ddigonol ac yn briodol i roi sail i'm barn.

**Casgliadau'n ymwneud â busnes hyfyw**

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod y defnydd o'r sail gyfrifyddu busnes hyfyw wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Ar sail y gwaith yr wyf wedi'i wneud, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r corff i barhau i fabwysiadu'r sail gyfrifyddu busnes hyfyw am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r adeg y mae'r datganiadau ariannol wedi'u hawdurdodi i'w cyhoeddi.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau i a chyfrifoldebau'r ymddiriedolwr o ran busnes hyfyw yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

**Gwybodaeth Arall**

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad blynyddol ac eithrio'r datganiadau ariannol a'm hadroddiad archwilydd gyda hynny. Yr ymddiriedolwr sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall sydd yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn ymdrin â'r wybodaeth arall, ac eithrio i'r graddau a nodir yn benodol yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicr arni.

Fy nghyfrifoldeb i yw darllen y wybodaeth arall ac, o wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn anghyson gyda'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad, neu'n ymddangos ei bod wedi cael ei chamddatgan. Os byddaf yn dod ar draws anghysonderau perthnasol o'r fath neu gamddatganiadau perthnasol, mae gofyn i mi benderfynu a yw hyn wedi arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os dof i'r casgliad, ar sail y gwaith yr wyf wedi ei wneud, bod camddatganiad perthnasol o'r wybodaeth arall hon, mae gofyn i mi adrodd am y ffaith honno.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd yn hyn o beth.

**Materion rwy'n adrodd arnynt fel eithriad**

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol y mae Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 yn gofyn i mi gyflwyno adroddiad i chi mewn perthynas â hwy os, yn fy marn i:

- nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad;
- nid oes cofnodion cyfrifyddu digonol wedi'u cadw, neu nid oes ffurflenni digonol ar gyfer fy archwiliad wedi'u derbyn gan ganghennau nad yw fy nhîm wedi ymweld â hwy;
- nad yw'r datganiadau ariannol yn cyd-fynd â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- mae'r wybodaeth a roddir yn y datganiadau ariannol yn anghyson mewn unrhyw ffordd berthnasol ag adroddiad yr ymddiriedolwyr.

**Cyfrifoldebau'r ymddiriedolwr am y datganiadau ariannol**

Fel yr esboniwyd yn llawnach yn y datganiad o gyfrifoldebau ymddiriedolwyr a nodir ar dudalen 45-46, mae'r ymddiriedolwr yn gyfrifol am:

- gynnal cofnodion cyfrifeg digonol;
- paratoi'r datganiadau ariannol yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg;
- sicrhau bod rheolaethau mewnol fel y mae'r ymddiriedolwyr yn penderfynu eu bod yn angenrheidiol er mwyn galluogi paratoi datganiadau ariannol yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad; ac
- asesu gallu'r Elusen i barhau fel busnes hyfyw, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, faterion sy'n ymwneud â busnes hyfyw a defnyddio'r sail gyfrifyddu busnes hyfyw oni bai bod yr ymddiriedolwyr yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan yr elusen yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

**Cyfrifoldebau'r archwilydd wrth archwilio'r datganiadau ariannol**

Fe'm penodwyd yn archwilydd o dan adran 150 o Ddeddf Elusennau 2011 ac rwy'n adrodd yn unol â rheoliadau a wnaed o dan adran 154 o'r Ddeddf honno.

Fy nod yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol ar y cyfan yn rhydd rhag unrhyw gamddatganiad perthnasol, boed trwy dwyll neu gamgymeriad, ac i gyflwyno adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn.  Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad sy'n cael ei gynnal yn unol â SARhau (DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fydd yn bodoli.  Gall camddatganiadau ddigwydd oherwydd twyll neu wall a chânt eu hystyried yn sylweddol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, y gellir disgwyl yn rhesymol iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wnaed ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau. Rwy'n cynllunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- Ymchwilio i reolaeth, Pennaeth Archwilio Mewnol Elusen Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol sy'n ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau Elusen Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro sy'n ymwneud â: - nodi, gwerthuso a chydymffurfio â deddfau a rheoliadau ac a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio; - canfod ac ymateb i risgiau twyll ac a oedd ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, amheuaeth o dwyll neu dwyll honedig; a'r rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau.
- Ystyried fel tîm archwilio sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll.  Fel rhan o'r drafodaeth hon, adnabûm y potensial ar gyfer twyll yn ymwneud â chyhoeddi dyddlyfrau anarferol.
- Cael dealltwriaeth o fframwaith awdurdod Elusen Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Elusen Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn gweithredu'n unol â hwy, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Elusen Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro.
- Cael dealltwriaeth o gydberthnasau parti cysylltiedig.

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu datgeliadau a phrofion y datganiad ariannol i ddogfennau ategol i asesu cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- holi rheolwyr, a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethiant, a chynghorwyr cyfreithiol ynghylch ymgyfreitha a hawliadau posibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai fu'n gyfrifol am lywodraethu ac;
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll drwy reolwyr yn diystyru rheolaethau, profi priodoldeb cofnodion ac addasiadau eraill; asesu a yw'r penderfyniadau a wnaed wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o duedd bosibl; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs busnes arferol.

Wnes i hefyd gyfleu cyfreithiau a rheoliadau perthnasol a nodwyd a risgiau twyll posibl i holl aelodau'r tîm archwilio a pharhau i fod yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Mae'r graddau y mae fy ngweithdrefnau yn gallu canfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, wedi ei effeithio gan anhawster canfod unrhyw afreoleidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Elusen Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro, a natur, amseriad a hyd a lled y gweithdrefnau archwilio a ddefnyddir.

Mae disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilydd.

## Cyfrifoldebau archwilio eraill

Rwyf yn cyfathrebu â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymhlith materion eraill, gwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio sylweddol, gan gynnwys unrhyw ddiffygion sylweddol mewn rheolaeth fewnol a nodaf yn ystod fy archwiliad.

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
27 Ionawr 2025

1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall t
Caerdydd
CF10 4BZ